

Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2019/20



Y RHWYDWAITH YMCHWIL
IECHYD MEWN YSGOLION
SCHOOL HEALTH
RESEARCH NETWORK



Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Nicholas Page

Gillian Hewitt

Honor Young

Graham Moore

Simon Murphy

Mawrth 2021

Enwi: Page N., Hewitt G., Young H., Moore G., Murphy S. (2021) Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2019/20. Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, DU



Cynnwys

Tablau a ffigurau	iii
Rhagair Gweinidogol.....	vi
Rhagair pobl ifanc	viii
Cydnabyddiaethau	ix
1. Cyflwyniad	1
2. Dulliau.....	5
3. Iechyd meddwl a lles.....	11
4. Bywyd ysgol.....	37
5. Gweithgarwch corfforol a deiet.....	68
6. Bywyd teuluol a bywyd cymdeithasol	90
7. Perthnasoedd	110
8. Defnyddio sylweddau a gamblo	123
Atodiad	156
Cyfeiriadau.....	172

Tablau a ffigurau

Tablau (Dulliau)

2.1	Sampl a chyfradd ymateb myfyrwyr yn ôl grŵp blwyddyn	7
-----	--	---

Ffigurau a Thablau (Canfyddiadau)

Pennod 3: Iechyd meddwl a lles

Ffigurau		
3.1-3.4	Bodddhad â bywyd	14-15
3.5-3.8	Lles (sgorau SWEMWBS)	16-17
3.9-3.12	Unigrwydd (graddfa unigrwydd UCLA)	18-19
3.13-3.16	Unigrwydd yn ystod y gwyliau haf diwethaf	20-21
3.17-3.20	Iechyd meddwl (cyfanswm sgôr graddfa SDQ)	22-23
3.21-3.24	Iechyd meddwl (is-raddfa problemau emosiynol SDQ)	24-25
3.25-3.28	Iechyd meddwl (is-raddfa problemau ymddygiad SDQ)	26-27
3.29-3.32	Iechyd meddwl (is-raddfa gorfywiogrwydd SDQ)	28-29
3.33-3.36	Iechyd meddwl (is-raddfa problemau cyfoedion SDQ)	30-31
3.37-3.40	Iechyd meddwl (is-raddfa ymddygiad rhag-gymdeithasol SDQ)	32-33
Tablau		
3.1	Mesurau yn ôl grŵp ethnig	34
3.2	Mesurau yn ôl bwrdd iechyd lleol	35
3.3	Mesurau yn ôl consortiwm addysg rhanbarthol	36

Pennod 4: Bywyd ysgol

Ffigurau		
4.1-4.4	Hoffi'r ysgol	41-42
4.5-4.8	Dan bwysau yn yr ysgol	43-44
4.9-4.12	Teimlo bod athrawon yn eu derbyn	45-46
4.13-4.16	Teimlo bod athrawon yn poeni amdanynt	47-48
4.17-4.20	Aelod o staff i ymddiried ynddo	49-50
4.21-4.24	Cyfranogi wrth gynllunio digwyddiadau ysgol	51-52
4.25-4.28	Cyfleoedd i benderfynu ar brosiectau ysgol a'u cynllunio	53-54
4.29-4.32	Syniadau myfyrwyr yn cael eu trin o ddifrif yn yr ysgol	55-56
4.33-4.36	Eu syniadau eu hunain yn cael eu trin o ddifrif yn yr ysgol	57-58
4.37-4.40	Bwlio - cyflawni	59-60
4.41-4.44	Bwlio – erledigaeth	61-62
4.45-4.48	Cymorth iechyd meddwl yn yr ysgol	63-64
Tablau		
4.1	Mesurau yn ôl grŵp ethnig	65
4.2	Mesurau yn ôl bwrdd iechyd lleol	66
4.3	Mesurau yn ôl consortiwm addysg rhanbarthol	67

Pennod 5: Gweithgarwch corfforol a deiet

Ffigurau		
5.1-5.4	Gweithgarwch corfforol	71-72
5.5-5.8	Teithio llesol i'r ysgol	73-74
5.9-5.12	Amser a dreulir yn eistedd	75-76
5.13-5.16	Bwyta brecwast yn ystod yr wythnos	77-78
5.17-5.20	Bwyta ffrwythau	79-80
5.21-5.24	Bwyta llysiau	81-82
5.25-5.28	Yfed diodydd meddal sy'n cynnwys siwgr	83-84
5.29-5.32	Yfed diodydd egni	85-86

Tablau		
5.1	Mesurau yn ôl grŵp ethnig	87
5.2	Mesurau yn ôl bwrdd iechyd lleol	88
5.3	Mesurau yn ôl consortiwm addysg rhanbarthol	89

Pennod 6: Bywyd teuluol a bywyd cymdeithasol

Ffigurau		
6.1-6.4	Help a chefnogaeth emosiynol gan y teulu	93-94
6.5-6.8	Gallu dibynnu ar ffrindiau	95-96
6.9-6.12	Seiberfwlio - cyflawni	97-98
6.13-6.16	Seiberfwlio - erledigaeth	99-100
6.17-6.20	Amser gwely yn ystod yr wythnos	101-102
6.21-6.24	Defnyddio sgrin yn hwyr y nos	103-104
6.25-6.28	Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd problemus	105-106

Tablau		
6.1	Mesurau yn ôl grŵp ethnig	107
6.2	Mesurau yn ôl bwrdd iechyd lleol	108
6.3	Mesurau yn ôl consortiwm addysg rhanbarthol	109

Pennod 7: Perthnasoedd

Ffigurau		
7.1-7.4	Secstio	112-113
7.5-7.7	Cyfathrach rywiol	114-115
7.8-7.10	Oedran yn cael cyfathrach rywiol gyntaf	116-117
7.11-7.13	Dulliau atal cenhedlu	118-119

Tablau		
7.1	Mesurau yn ôl grŵp ethnig	120
7.2	Mesurau yn ôl bwrdd iechyd lleol	121
7.3	Mesurau yn ôl consortiwm addysg rhanbarthol	122

Pennod 8: Defnyddio sylweddau a gamblo

Ffigurau		
8.1-8.4	Ysmygu tybaco ar hyn o bryd	127-128
8.5-8.7	Oedran wedi ysmygu sigarét gyntaf	129-130
8.8-8.11	Amlygu i fwg tybaco mewn ceir	131-132
8.12-8.15	Arbrofi gydag e-sigaréts	133-134
8.16-8.19	Defnyddio e-sigaréts ar hyn o bryd	135-136
8.20-8.23	Yfed alcohol (amlder)	137-138
8.24-8.27	Yfed alcohol (maint)	139-140
8.28-8.30	Oedran wedi meddwi gyntaf	141-142
8.31-8.34	Wedi cael cynnig canabis	143-144
8.35-8.38	Defnyddio canabis yn ystod eu bywyd	145-146
8.39-8.41	Oedran defnyddio canabis gyntaf	147-148
8.42-8.45	Defnyddio cyffuriau anghyfreithlon	149-150
8.46-8.49	Gamblo yn y saith niwrnod diwethaf	151-152

Tablau		
8.1	Mesurau yn ôl grŵp ethnig	159
8.2	Mesurau yn ôl bwrdd iechyd lleol	154
8.3	Mesurau yn ôl consortiwm addysg rhanbarthol	155

Tablau (Atodiad)

A.1	Trywyddau'r arolwg	156-157
A.2	Nodweddion sampl	158
A.3	Graddfa Anhwylder Cyfryngau Cymdeithasol – cymharu data 2017/18	160
A.4	Rhywedd yn 2017 a 2019	161
A.5	Diffyg ymateb rhywedd yn ôl grŵp blwyddyn yn 2017 a 2019	162
A.6	Hunaniaeth rhywedd yn ôl rhyw adeg geni	162
A.7-A.12	Cyfyngau hyder o 95% ar gyfer Ffigurau yn yr adroddiad yn seiliedig ar lai na 1,000 o ymatebwyr	163-165

Rhagair Gweinidogol

Mae iechyd corfforol ac iechyd meddwl da yn hanfodol er mwyn i'n cenhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol ddatblygu a ffynnu. Mae nodau ein Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau Cymru fwy ffyniannus, iachach a mwy cyfartal yn tanategu'r modd yr ydym yn cefnogi iechyd a lles ein plant a'n pobl ifanc. Mae un rhan allweddol o'n Deddf yn seiliedig ar gydweithio a chynnwys. Rydym am sicrhau bod y llywodraeth yn cyflawni ar gyfer plant a phobl ifanc drwy wrando a deall rhai o'r cyfleoedd a'r heriau y maen nhw'n eu hwynebu. Mae hyn yn dibynnu ar ein bod yn cael mynediad at wybodaeth o ansawdd uchel am iechyd a lles sy'n ein galluogi i nodi beth yw'r materion, a monitro'n rheolaidd sut maent yn newid.

Datblygwyd seilwaith y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ers 2013. Mae hwn yn galluogi i wybodaeth gael ei chasglu gan blant oedran ysgol uwchradd yng Nghymru bob dwy flynedd drwy'r Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr, gyda rhyw 70% ohonynt yn ymateb yn 2019. Mae hyn yn golygu y gallwn gael dealltwriaeth wirioneddol o ymddygiadau iechyd a lles grwpiau gwahanol o fyfyrwyr. Mae'n golygu hefyd y gallwn ddeall a datblygu ein hymatebion i'r hyn y mae'r data'n ei ddweud wrthym ar bob lefel o'r system – o'r lefel genedlaethol a gwmpesir yn yr adroddiad hwn at ysgolion unigol. Yn ogystal, bob pedair blynedd, gallwn wneud cymariaethau gydag oddeutu 50 o wledydd eraill trwy gysylltiadau'r arolwg â'r Astudiaeth drawsgenedlaethol Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol. Mae hyn yn sicrhau y gallwn ddysgu o ymarfer arall sy'n digwydd ledled y byd.


Ni ellir gorbwysleisio gwerth y wybodaeth hon. Bydd y cwricwlwm newydd sy'n cael ei gyflwyno o 2022, a'r Maes Dysgu Iechyd a Lles yn arbennig, yn sicrhau bod iechyd meddwl disgybl yn cael yr un flaenoriaeth â'i iechyd corfforol, a bod lles disgyblion yn cael ei ystyried cyn bwysiced â'u cyrhaeddiad academiaidd. Gan adeiladu ar hyn, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion, awdurdodau lleol, rhieni ac eraill i wreiddio a gwerthuso dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol ledled Cymru. Gofynnodd arolwg 2019 ystod eang o gwestiynau i fyfyrwyr a oedd yn berthnasol i iechyd a lles. Gwyddwn gan athrawon ac ymarferwyr fod yr adroddiadau unigol a ddarparwyd i ysgolion cyfranogol wedi arwain at ymarfer sy'n cael ei arwain gan ddata ac at welliannau. Bydd hefyd yn ein galluogi ni yn y llywodraeth i fonitro sut mae pethau'n newid ar hyd a lled Cymru wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

I roi un enghraifft arall o'r modd yr ydym yn defnyddio'r arolwg, yn 2019 lansiom gynllun newydd uchelgeisiol, Pwysau Iach: Cymru Iach, i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru. Mae'r arolwg yn darparu ystod o wybodaeth bwysig i olrhain newidiadau mewn ymddygiad ac agweddau wrth i ni weithredu'r strategaeth. Mae'r strategaeth yn cael ei llywio, a bydd yn parhau i gael ei llywio, drwy'r wybodaeth y mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthym.

Nid yw gwybodaeth am iechyd a lles erioed wedi bod yn bwysicach nag ydyw heddiw. Mae pandemig COVID-19 wedi achosi tarfu na fu ei debyg ar ffyrdd o fyw plant a phobl ifanc. Mae'r cyfuniad o gau ysgolion a chyfnodau clo, yn ogystal ag effeithiau economaidd ac iechyd ar deuluoedd, yn debygol o gael canlyniadau pellgyrhaeddol ar gyfer iechyd a lles meddyliol a chorfforol. Gwyddwn nad yw'r tarfu hwn wedi effeithio ar bawb yn gyfartal.

Mae Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2019 yn darparu asesiad cenedlaethol unigryw o iechyd a lles myfyrwyr cyn y pandemig. Disgwylir y bydd cylch arall o gasglu data yn 2021, a fydd yn ein helpu i ddeall yr effeithiau parhaus, tymor hwy, er enghraifft ar les meddyliol, datblygiad personol a chymdeithasol, unigrwydd, gweithgarwch corfforol a deiet. Gan weithio

mewn partneriaeth ag eraill fel Canolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc sydd newydd ei chreu, bydd y ddealltwriaeth hon yn hollbwysig wrth i ni gynllunio ein hymatebion i'r effeithiau hyn dros y blynyddoedd i ddod.



Kirsty Williams
Y Gweinidog Addysg



Eluned Morgan
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r
Gymraeg

Rhagair pobl ifanc

ADVICE LEADING TO PUBLIC HEALTH ADVANCEMENT



DECIPHER'S RESEARCH ADVISORY GROUP OF
YOUNG PEOPLE

Rydym yn grŵp o bobl ifanc 14-25 oed sy'n cynghori ymchwilwyr trwy drafod a dadlau ein barnau ar destunau iechyd y cyhoedd a'r ymchwil y bwriadant ei gyflawni. Ffurfiodd y grŵp yn DECIPHER (Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd) ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2010, gyda'r nod o ddod â phobl ifanc ag ystod o brofiadau a barnau ynghyd, i helpu sicrhau bod ymchwil yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i ni. Yn y pen draw, mae hyn yn helpu gwella ein hiechyd ni ac iechyd pobl ifanc eraill.

Rydym wedi bod yn gysylltiedig â'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) ers ei gychwyn yn 2013, gan helpu i lywio cwestiynau arolwg a lledaenu canfyddiadau. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r Rhwydwaith yn arloesol ac yn torri tir newydd.

Mae llawer o gyflyrau iechyd y cyhoedd yn dangos eu harwyddion cyntaf mewn plentyndod ac fe allant ddatblygu yn gyflyrau a all fynnu gofal rheolaidd trwy gydol oedolaeth. Mae'n hanfodol i ni felly gael y cyfle i ddweud ein dweud mewn materion sy'n effeithio'n uniongyrchol arnom, ac i gael y wybodaeth a'r arweiniad a all ein helpu ni i lywio'n bywydau. O ystyried yr hinsawdd sydd ohoni, mae'n hanfodol cael ein barnau er mwyn helpu mynd i'r afael ag ansicrwydd yn y dyfodol o fewn iechyd y cyhoedd yn ymwneud â phobl ifanc. Un flaenoriaeth ddiweddar i ni fu iechyd meddwl pobl ifanc, ac rydym wedi bod yn gweithio gyda phrosiectau a rhwydweithiau sy'n canolbwyntio ar y mater allweddol hwn. Mae hyn wedi ein harwain i gydweithio â chyrff eraill, fel drwy'r rhwydwaith TRIUMPH a Chanolfan newydd Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc, sydd ill dau yn gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, ac sy'n amcanu at helpu i wella iechyd meddwl a lles pobl ifanc.

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn offeryn aruthrol o werthfawr ar gyfer darparu data ar iechyd a lles i ysgolion a rhanddeiliaid eraill. Mae'n helpu ysgolion a myfyrwyr, fel ni, i ddeall tystiolaeth ymchwil iechyd ac yn rhoi'r modd i ni weithredu prosiectau a rhaglenni sy'n helpu gwella meysydd iechyd y cyhoedd y mae angen eu gwella. Heb y Rhwydwaith, ni fyddai gwybodaeth a dealltwriaeth o iechyd y cyhoedd yn ymwneud â phobl ifanc yng Nghymru wedi datblygu fel y mae heddiw. Mae'n rhaid i ni barhau i ymdrechu i adnabod meysydd iechyd y cyhoedd sy'n cael effaith uniongyrchol ar bobl ifanc ac mae'n rhaid i ni, fel pobl ifanc, gael ein cynnwys ym mhob cam. Mae gan ein cenhedlaeth ni lawer i'w roi, ac ni allwn fforddio i'n lleisiau beidio â chael eu clywed.

Cydnabyddiaethau

Estynnwn ein diolch i'r miloedd o bobl ifanc a gymerodd ran yn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2019/20, ac i'r llu o aelodau staff ysgolion a weinyddodd yr arolwg ac sy'n parhau i gefnogi'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion.

Rydym yn ddiolchgar hefyd i ALPHA, sef grŵp cynghori pobl ifanc yn DECIPHer, am y cyngor a roesant i'r Rhwydwaith ers ei gychwyn, ac am ysgrifennu rhagair i'r adroddiad hwn.

Diolchwn i'r Gweinidog Addysg, y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, Dr Chris Roberts, Richard Thurston MBE (Llywodraeth Cymru) a Dr Julie Bishop (Iechyd Cyhoeddus Cymru) am eu cefnogaeth barhaus i'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion.

Yn olaf, estynnwn ein diolch i'r tîm yn Ipsos MORI (Holly Kitson, Sarah McHugh, Georgina Wilkinson ac Yota Bratsa) ac i gydweithwyr yn nhîm y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ym Mhrifysgol Caerdydd (Joan Roberts, Matt Davies, Amy Edwards, Danielle Couteriaux, Peter Gee, Rebecca Anthony, ac Emily Lowthian).

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn bartneriaeth rhwng y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) ym Mhrifysgol Caerdydd, Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD), Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cancer Research UK. Caiff ei ariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, yr adrannau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru a chan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyn mis Ebrill 2020, roedd cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei drefnu drwy'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Llesiant y Boblogaeth. Cefnogwyd datblygiad cynnar y Rhwydwaith gan grant partneriaeth y Cyngor Ymchwil Feddygol (MR/L002787/1). Cynhaliwyd yr arolwg gyda chymorth DECIPHer, sef Canolfan Ragoriaeth Ymchwil Iechyd y Cyhoedd Cydweithredu ar Ymchwil Glinigol yn y DU. Cydnabyddir yn ddiolchgar gyllid ar y cyd (MR/KO232331/1) gan y British Heart Foundation, Cancer Research UK, y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, y Cyngor Ymchwil Feddygol, Llywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Wellcome, o dan nawdd Cydweithredu ar Ymchwil Glinigol y DU.

Dylid cyfeirio ymholiadau'n ymwneud â'r adroddiad hwn i shrn@cardiff.ac.uk.

Cydnabyddiaeth lluniau: Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant, Casnewydd ac Ysgol Howell, Caerdydd.

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2019/20 yng Nghymru. Fe'i cynhelir bob dwy flynedd, ac mae'r arolwg yn rhoi ciplun rheolaidd o ymddygiadau iechyd pobl ifanc 11 i 16 oed. Mae hyn yn galluogi asesu iechyd pobl ifanc yng Nghymru yn barhaus, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, a chyfleoedd i wneud cymariaethau rhyngwladol o dueddiadau mewn iechyd a lles y glasoed. Mae llawer o faterion yn ymwneud ag iechyd a lles yn dod i'r amlwg yn ystod plentynod, ac mae angen ymyrryd yn gynnar felly. Fodd bynnag, mae'r glasoed yn gyfnod pwysig o ddatblygiad corfforol ac emosiynol cyflym, yn ogystal â chyfnod lle ceir dylanwadau cymdeithasol newidiol ar iechyd, ac mae anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol mewn iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol yn deillio o blentynod cynnar yn ehangu yn ystod y glasoed cyn eu holrhain i mewn i oedolaeth¹.

Iechyd a Lles plant oedran ysgol uwchradd yng Nghymru

Yn y ddwy flynedd ers yr **Arolwg o Iechyd a Lles Myfyrwyr** diwethaf, bu datblygiadau arwyddocaol yn y sectorau iechyd ac addysg yng Nghymru sydd wedi ceisio effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a lles plant a phobl ifanc.

Ar ôl derbyn yr argymhellion a gynigiwyd yn *'Dyfodol Llwyddiannus'*, daeth adolygiad annibynnol a chynhwysfawr o'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru yn 2015², **Iechyd a Lles** yn un o chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Un nodwedd ddifiniol o'r dull gweithredu newydd hwn yw bod yn rhaid i ysgolion ddatblygu'u cwricwlwm eu hunain yn awr, yn hytrach na chyflwyno rhaglen genedlaethol ragnodedig, ac mae'n rhaid mai un o 4 diben craidd hynny yw cefnogi myfyrwyr i ddatblygu'n unigolion iach a hyderus³. Cyhoeddwyd canllawiau drafft i ysgolion yn Ebrill 2019, a'r canllawiau terfynol yn Ionawr 2020², gan ddarparu cymorth i ysgolion uwchradd i ddechrau dylunio'u cwricwla ar gyfer yr holl grwpiau blwyddyn erbyn 2022, gan eu gweithredu ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 7 ym mis Medi 2022.

Mae iechyd meddwl ac iechyd emosiynol plant a phobl ifanc wedi codi'n gyflym ar yr agenda iechyd byd-eang ac mae ysgolion wedi'u nodi fel sefydliadau allweddol ar gyfer amddiffyn a gwella iechyd meddwl⁴⁻⁶. Yng Nghymru, mae tasglu gweinidogol ar y cyd (rhwng y Gwasanaeth Addysg ac Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol) wedi datblygu dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a lles emosiynol⁷. Mae'r dull yn gyson â Fframwaith Ysgolion sy'n Hybu Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd a'i bwriad yw cefnogi Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles a sicrhau bod amgylcheddau, polisiau ac arferion ysgolion yn gefnogol i anghenion iechyd meddwl myfyrwyr.

Datblygiad pellach i hybu iechyd meddwl yng Nghymru yw strategaeth genedlaethol newydd i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, sy'n cynnwys ymrwymiad i ddatblygu a lledaenu canllawiau arfer gorau ynglŷn â dulliau ysgol gyfan o ymdrin â lles⁸. Hefyd, mae Cymru wedi sicrhau buddsoddiad ymchwil sylweddol mewn iechyd meddwl yn sgil creu Canolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc ym Mhrifysgol Caerdydd, a fydd yn ymgymryd ag ymchwil ryngddisgyblaethol i orbryder ac iselder ymhlith pobl ifanc.

'Pwysau Iach, Cymru Iach' yw strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru i atal a lleihau lefelau gordewdra yng Nghymru⁹. A hithau wedi'i lansio yn 2019, mae'r strategaeth yn mynd i'r afael ag ystod eang o ffactorau'n ymwneud â gordewdra, y bydd llawer ohonynt yn

effeithio ar bobl ifanc, gan gynnwys teithio llesol, bwyd a gweithgarwch corfforol yn yr ysgol, hysbysebu bwyd, a siopau cludfwd poeth gerllaw ysgolion.

Mae pobl ifanc yn parhau i wynebu llawer o heriau iechyd ac mae canfyddiadau rhyngwladol diweddar yn dynodi bod materion yn parhau ar draws ystod o ymddygiadau iechyd, gan gynnwys bwyta ffrwythau a llysiau, gweithgarwch corfforol, yfed alcohol a defnyddio dyfeisiau atal cenhedlu¹⁰, tra bod ymddygiadau eraill, fel defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, yn cyflwyno heriau newydd¹¹. Atseiniwyd canfyddiadau tebyg yn ddiweddar yng Nghymru^{12, 13}. Yn ogystal, ar hyn o bryd mae pobl ifanc yn wynebu effeithiau iechyd, lles ac addysgol y pandemig coronafeirws (COVID-19) byd-eang. Mae cau ysgolion yng Nghymru yn ystod cyfnodau o 2020 ac yn gynnar yn 2021 wedi arwain at fyfyrwyr yn colli wythnosau o addysgu wyneb yn wyneb a chymorth yn yr ysgol ar gyfer eu hiechyd a'u lles¹⁴. Mae cyfnodau clo a mesurau cadw pellter cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn wedi golygu hefyd y bu tarfu ar ffynonellau cymorth amgen, fel rhwydweithiau teulu neu gyfeillgarwch, gan gynyddu'r risg o bobl ifanc yn teimlo'n unig neu'n ynysig. Yn gysylltiedig â hyn, fe wnaeth risg dod i gysylltiad â thrais domestig mewn cartrefi camdriniol gynyddu¹⁵. Yn hanfodol, nid yw effeithiau'r pandemig wedi'u dosbarthu'n gyfartal ac mae pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn fwy tebygol o fod wedi cael profiad o brofedigaeth ac wedi'u heffeithio'n anghymesur gan ysgolion yn cau o ran sicrwydd bwyd ac unigrwydd¹⁶⁻¹⁸. Ymhellach, mae effaith ariannol anghyfartal y pandemig ar gartrefi incwm isel yn golygu bod y risg o hynny'n ehangu anghydraddoldebau cymdeithasol ac iechyd yn un sylweddol¹⁹.

Yn sgil y ffaith eu bod yn cwmpasu plant a phobl ifanc bron yn grwn, mae ysgolion yn aml yn cael eu hystyried yn lleoliadau allweddol i ddarparu ymyriadau drwyddynt er mwyn gwella iechyd a lles plant a phobl ifanc, ac mae rhywfaint o dystiolaeth i gefnogi'r ymagwedd hon. Mae tystiolaeth yn dangos bod ysgolion sy'n mabwysiadu Fframwaith Ysgolion sy'n Hybu Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd yn gallu gwella iechyd a lles eu myfyrwyr yn effeithiol, ac nad yw ysgolion sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd yn gwneud hynny ar draul cyrhaeddiad addysgol²⁰⁻²². Mae'n hanfodol cydnabod, fodd bynnag, fod llawer o bolisiau sydd â'r potensial i effeithio ar iechyd plant a'r glasoed yn digwydd y tu allan i'r sector addysg. Mae gan ystod eang o asiantaethau statudol ac asiantaethau trydydd sector gylchoedd gwaith sy'n cynnwys iechyd a lles plant a phobl ifanc yn benodol, neu sydd â'r potensial i ddylanwadu arnynt. Mae defnyddio data i lywio a gwerthuso polisiau ac ymyriadau sy'n gweithredu y tu allan i ysgolion yn bwysig felly. Mae data cenedlaethol a thystiolaeth ymchwil a gynhyrwyd gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (disgrifir yn yr adran nesaf) wedi dylanwadu ar nifer o'r datblygiadau yng Nghymru a amlinellwyd uchod^{3, 7, 8}, ac mae'r potensial ganddo i gael ei ddefnyddio i werthuso effeithiolrwydd polisiau ac ymyriadau o fewn y lleoliad ysgol a thu hwnt²³. Mae data cenedlaethol gan y Rhwydfwaith felly yn cynnwys y potensial i werthuso effaith polisiau ar iechyd pobl ifanc, gan gynnwys strategaethau ymadfer COVID-19, er enghraifft sy'n cynnwys addysg ac ysgolion ond yn mynd y tu hwnt iddynt. Yn bwysig, cafodd y data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ei gasglu cyn y cyfnod COVID-19 (rhwng Medi a Rhagfyr 2019), a bydd felly'n darparu gwaelodlin ar gyfer monitro effeithiau'r pandemig, a strategaethau ymadfer, yn y tymor byr a'r tymor hwy, ar iechyd a lles pobl ifanc yng Nghymru.

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Sefydlwyd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn 2013 gyda chyllid gan y Cyngor Ymchwil Feddygol fel partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru/ Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru (WNHSS), Cancer Research UK, Sefydliad

Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) a Phrifysgol Caerdydd²⁴. Mae bellach yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru ac mae aelodaeth ysgolion yn parhau i gynnwys yr holl ysgolion uwchradd ac ysgolion canol a gynhelir yng Nghymru, sef 210 o ysgolion yn 2019/20. Caiff y Rhwydwaith ei arwain gan y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) ym Mhrifysgol Caerdydd (<https://decipher.uk.net/>).

Nod y Rhwydwaith yw gwella iechyd a lles pobl ifanc trwy:

- Ddarparu data cadarn ar iechyd a lles ar gyfer rhanddeiliaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Gweithio gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr o'r sectorau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol i gyd-gynhyrchu ymchwil iechyd a lles o ansawdd uchel yn seiliedig ar ysgolion ar gyfer Cymru
- Hwyluso trosi tystiolaeth ymchwil iechyd a lles mewn ysgolion i ymarfer
- Meithrin gallu ar gyfer ymarfer wedi'i lywio gan dystiolaeth o fewn cymuned iechyd ysgolion

Mae'r **Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr** yn tanategu nod cyntaf y Rhwydwaith ac fe'i cynhelir bob dwy flynedd. Yn yr un flwyddyn ysgol, mae ysgolion Rhwydwaith hefyd yn cwblhau Holiadur Amgylchedd Ysgolion i ddarparu data ar bolisiau ac arferion iechyd ysgolion – a chyhoeddir canfyddiadau hwnnw mewn adroddiad ar wahân. Mae cynnwys y ddau arolwg yn adlewyrchu anghenion data presennol o ran polisi, ymarfer ac ymchwil.

Gyda'i gilydd, mae'r ddau arolwg yn ffurfio seilwaith data effeithlon a chost-effeithiol ar iechyd a lles ar gyfer Cymru, sy'n darparu data ar nifer o lefelau ac at amrywiaeth o ddibenion²⁵. Ar y lefel leol, mae Adroddiad ar Iechyd a Lles Myfyrwyr yn cael ei ddarparu i bob ysgol sy'n cymryd rhan yn yr arolwg myfyrwyr, ac mae'r adroddiadau hyn wedi'u defnyddio ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ac addysgu, ymgysylltiad myfyrwyr a rhieni ag iechyd ysgolion, ac ar gyfer cynlluniau gweithredu iechyd a gwerthuso'n lleol. Hefyd, mae adroddiadau rhanbarthol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer Awdurdodau Lleol, ac mae data'n cael ei ddarparu i bartneriaid cenedlaethol ar gyfer cadw gwyladwriaeth ar iechyd¹², moinotro a gwerthuso polisiau^{8, 26}.

Mae seilwaith data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn cael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer ymchwil i iechyd pobl ifanc. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys ymddygiadau gamblo, ysmygu a defnyddio canabis, lles ar draws y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, cael cariad a thrais mewn perthynas²⁷⁻³⁰. Mae canfyddiadau o'r ymchwil hon yn cael eu bwydo'n ôl i ysgolion ac i'r system iechyd ysgolion ehangach drwy Friffiau Ymchwil a gweminarau.

Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion wedi dod yn gyfrwng hefyd i Gymru gymryd rhan yn yr **Astudiaeth Ymddygiad Iechyd ymhlith Plant Oedran Ysgol (HBSC)** sy'n astudiaeth gydweithredol, drawsgenedlaethol gan Sefydliad Iechyd y Byd. Bob pedair blynedd, mae 50 o wledydd cyfranogol yn ymgymryd ag arolwg cenedlaethol gynrychioliadol o bobl ifanc 11, 13 a 15 oed, gyda chwestiynau'n cwmpasu iechyd a lles, amgylcheddau cymdeithasol ac ymddygiadau iechyd. Mae Cymru wedi cymryd rhan ym mhob cylch o'r HBSC ers 1985, ac mae'r data canlyniadol wedi bod yn ffynhonnell wybodaeth allweddol am iechyd plant a'r glasoed, gan ddarparu data cenedlaethol, rhyngwladol a lleol i ystod eang o rhanddeiliaid. Roedd Arolwg HBSC 2013/14 yng Nghymru yn allweddol i sefydlu'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, a chafodd yr arolwg HBSC mwyaf diweddar

(2017/18), am y tro cyntaf, ei ymgorffori'n llawn o fewn yr Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr. Mae canfyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol o arolwg HBSC 2017/18 ar gael am ddim¹⁰,¹². Rhagwelir y bydd yr arolwg HBSC nesaf yn cael ei gynnal yn 2021 a bydd yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i archwilio amrywiadau trawsgenedlaethol mewn ymddygiadau iechyd ymhlith pobl ifanc yng nghyd-destun pandemig COVID-19.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Rhwydwaith ac astudiaeth HBSC ar eu gwefannau: www.shrn.org.uk a www.hbsc.org.

2. Dulliau

Mae'r Arolwg o Iechyd a Lles Myfyrwyr bob dwy flynedd yn cynhyrchu data ar iechyd a lles ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid cenedlaethol eraill. Caiff yr holl ysgolion sy'n rhan o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg, ac ers 2017 mae'r aelodaeth wedi cynnwys yr holl ysgolion uwchradd ac ysgolion canol prif ffrwd a gynhelir yng Nghymru.

Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2019/20

Mae'r adroddiad hwn yn darparu trosolwg o'r data o Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2019/20. Prif amcanion arolwg 2019/20 oedd:

- Darparu dealltwriaeth fanwl o iechyd a lles pobl ifanc, yn gorfforol a meddyliol, a phenderfynyddion cymdeithasol iechyd ymhlith y boblogaeth gyfan ac ymhlith is-grwpiau, fel pobl ifanc â phrofiad o ofal
- Sefydlu carfan hydredol i hwyluso ymchwil i iechyd meddwl pobl ifanc
- Llywio polisi ac ymarfer er mwyn gwella bywydau pobl ifanc
- Lledaenu canfyddiadau i grwpiau amrywiol, er enghraifft, llunwyr polisi Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y GIG, ysgolion ac ymchwilwyr
- Ymgymryd ag ymchwil genedlaethol a rhyngwladol ar iechyd a lles, a chyd-destun cymdeithasol iechyd ymhlith pobl ifanc

Casglodd yr arolwg ddata hunangofnodedig gan fyfyrwyr ym mlynnyddoedd ysgol 7 i 11 yn yr holl ysgolion cyfranogol. Roedd ysgolion â myfyrwyr ym mlynnyddoedd 12 a 13 yn gallu eu cynnwys wrth gasglu data os oeddent yn dymuno. Fodd bynnag, mae data a gynhwyswyd yn yr adroddiad hwn yn cynnwys myfyrwyr ym mlynnyddoedd 7 i 11 yn unig. Gwnaed y penderfyniad hwn er mwyn sicrhau sampl gynrychioliadol gan fod rhai ysgolion wedi dewis peidio â chynnwys myfyrwyr o flynyddoedd 12 a 13, tra bod llawer o fyfyrwyr 17 ac 18 oed yn mynychu colegau yn hytrach nag ysgolion. Casglwyd yr holl ddata yn lleoliad yr ystafell ddosbarth, gyda staff ysgolion yn cael cyfarwyddyd i roi preifatrwydd i fyfyrwyr wrth iddyn nhw lenwi'r arolwg, oherwydd natur sensitif rhai cwestiynau.

Dyluniad yr holiadur

Mae'r holiadur yn esblygu ym mhob iteriad o'r Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr, gydag eitemau craidd yn cael eu cadw a rhai eraill yn cael eu dileu neu'u hailgynnwys yn unol ag anghenion polisi a diddordebau ymchwil. Yn 2019/20, cadwyd nodweddion demograffig myfyrwyr a set graidd o gwestiynau sy'n cael eu bwydo'n ôl i ysgolion yn eu Hadroddiadau ar Iechyd a Lles Myfyrwyr, ac adolygwyd yr holl gwestiynau eraill o ran eu perthnasedd i bolisi, ymarfer ac ymchwil. Ychwanegwyd nifer o eitemau wedyn i fodloni gofynion data polisi ac ymchwil yng Nghymru.

Un flaenoriaeth allweddol o ran polisi i Lywodraeth Cymru oedd datblygu a gwerthuso dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol ac emosiynol⁷, felly cynhwyswyd y fersiwn fer o'r Holiadur Hwyliau a Theimladau³¹ a'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau³² (cynhwyswyd y cyntaf mewn is-sampl o ysgolion er mwyn asesu ei addasrwydd ar gyfer monitro cenedlaethol, felly dim ond canlyniadau'r olaf sy'n cael eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn). I gefnogi monitro Cysylltu Cymunedau⁸, sef strategaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd, cafodd y fersiwn pobl ifanc o raddfa unigrwydd 3-eitem UCLA³³⁻³⁵ ei chynnwys hefyd.

Yn dilyn adborth gan ysgolion, diwygiwyd y cwestiwn ar rywedd i ddarparu opsiwn ymatebion i bobl ifanc sy'n nodi nad ydynt yn fachgen nac yn ferch, tra bod cwestiwn ar ryw adeg genedigaeth wedi'i ychwanegu hefyd (cynhwysir trosolwg o'r ymatebion i'r cwestiynau hyn yn yr Atodiad). Yn fyr, roedd pobl ifanc a nododd nad ydynt yn fachgen nac yn ferch yn cynrychioli 1% (n=1,191) o fyfyrwyr a samplwyd o flynyddoedd 7 i 11. Mae meintiau sylfaen ar gyfer amcangyfrifon a gafwyd ar gyfer y myfyrwyr hyn felly yn nodedig is na'r rheiny sy'n sail i amcangyfrifon ar gyfer gwrywod a benywod.

Cynhwyswyd eitemau'r holiadur ar ymddygiad rhywiol ar gyfer yr holl fyfyrwyr ym mlynnyddoedd 11, 12 a 13, ond gallai ysgolion ddewis hefyd eu cynnwys ar gyfer blynnyddoedd 9 a/neu 10 yn ogystal. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canlyniadau sy'n ymwneud â myfyrwyr blwyddyn 11 er mwyn sicrhau sampl gynrychioliadol yn genedlaethol.

Er mwyn cynyddu capasiti ymhellach a chaniatáu ar gyfer cynnwys nifer fwy o gwestiynau, dyluniwyd pedwar llwybr arolwg, gyda phob ysgol yn cael ei samplu yn ôl llwybr penodol (gweler yr adran nesaf). Cynhwyswyd rhai cwestiynau ym mhob llwybr, e.e. demograffeg myfyrwyr ac eitemau a gynhwyswyd yn Adroddiadau Iechyd a Lles Myfyrwyr ysgolion, tra bod rhai eraill wedi'u cynnwys mewn un, dau neu dri o'r llwybrau yn unig. Cyfeirir at y llwybrau fel SHRN1, SHRN2, SHRN3 a SHRN4, ac maent yn galluogi sefydlu carfanau cydlynus yn gysyniadol (gweler yr adran nesaf a Thabl A1).

Treialwyd y broses o gasglu data adnabyddadwy gan fyfyrwyr yn llwyddiannus yn 2017/18 er mwyn galluogi creu carfanau hydredol o fewn seilwaith data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Yn 2019/20, gofynnwyd i'r holl fyfyrwyr cyfranogol ddarparu eu henw, dyddiad geni a chod post. Gofynnwyd am y wybodaeth hon yn dilyn prif ran yr holiadur.

Wrth gofrestru ar gyfer yr arolwg, dynododd ysgolion p'un a fyddent yn barod i gymryd rhan mewn ymchwil cysylltu data. Fe wnaeth cant a thri deg a chwech o ysgolion (yn cynrychioli 69% o ysgolion cyfranogol) gydsynio i hyn ac aethant ymlaen i gymryd rhan yn yr arolwg. Nid yw manylion pellach ynglŷn ag elfen cysylltu data'r arolwg yn cael eu hadrodd yma, ond mae canfyddiadau'n ymwneud â'r astudiaeth beilot a gynhaliwyd yn 2017/18 wedi'u hadolygu gan gymheiriaid a'u cyhoeddi³⁶.

Dyluniad a gweithdrefnau samplu hydredol

Crëwyd dwy garfan ar gyfer Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2019/20:

- **Carfan iechyd meddwl**, lle'r oedd yr holl fyfyrwyr yn dilyn llwybrau'r holiadur a oedd yn cynnwys yr Holiadur Hwyliau a Theimladau byr
- **Carfan yr HBSC**, lle bydd myfyrwyr yn dilyn llwybr holiadur sy'n cynnwys eitemau gorfodol ar gyfer yr arolwg HBSC rhyngwladol pan gaiff ei integreiddio yn yr Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr bob pedair blynedd

O fewn pob carfan, rhannwyd ysgolion yn ddau grŵp, gyda phob grŵp yn dilyn llwybr holiadur gwahanol.

Gwnaed y gwaith samplu ysgolion gan gcontractwr yr arolwg mewn dau gam. Yn gyntaf, cafodd y cafodd y sampl o 210 o ysgolion a oedd yn aelodau o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ei threfnu yn haenau yn ôl statws cofrestru ar gyfer yr arolwg¹, bwrdd

¹ Dyrannwyd yr holl ysgolion i garfan, gan gynnwys tair ysgol na chofrestrodd i gymryd rhan yn yr arolwg.

iechyd lleol (BILI)² a'r ganran o fyfyrwyr â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yna dyrannwyd ysgolion mewn niferoedd cyfartal i'r ddwy garfan.

Roedd ail gam y sampl yn neilltuo'r ysgolion ym mhob carfan i lwybr holiadur penodol. O fewn pob carfan, trefnwyd y sampl yn haenau eto yn ôl statws cofrestru ar gyfer yr arolwg, bwrdd iechyd lleol a'r ganran o fyfyrwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. O fewn pob carfan, dyrannwyd ysgolion i lwybr arolwg penodol wedyn: SHRN1 a SHRN3 yn y garfan iechyd meddwl a SHRN2 a SHRN4 yn y garfan HBSC.

Anogwyd ysgolion i gynnwys yr holl fyfyrwyr yng ngrwpiau blwyddyn 7 i 11 a gofynnwyd iddynt wneud arolwg o ddsbarthiadau gallu cymysg.

Rhoddir meintiau sampl terfynol ar gyfer pedwar llwybr yr holiadur yn yr adran nesaf.

Cyfraddau ymateb

Gwahoddwyd dau gant a deg o ysgolion i gyfranogi yn yr arolwg (205 o ysgolion a gynhelir a phum ysgol annibynnol). Cyfranogodd cyfanswm o 198 (94%) o ysgolion, ac o'r rheiny darparwyd ymatebion gan 119,388 o fyfyrwyr 11-16 oed (cyfradd ymateb o 77%). Mae hon yn gyfradd ymateb gyffredinol o 72%. Dangosodd cyfraddau cyfranogi ac ymateb myfyrwyr yn ôl grwpiau blwyddyn gyfraddau ymateb tebyg o flynyddoedd 7 i 9, a gostyngiad nodedig ar ôl hynny (Tabl 2.1). Roedd meintiau samplau ar draws pedwar llwybr yr arolwg fel a ganlyn: SHRN1 32,617 (27.3%), SHRN2 26,950 (22.6%), SHRN3 28,304 (23.7%) a SHRN4 31,517 (26.4%). Rhoddir nodweddion samplau o ran rhywedd, cyfoeth teuluol, ethnigrwydd a BILI yn yr Atodiad.

Tabl 2.1 Sampl a chyfradd ymateb myfyrwyr yn ôl grŵp blwyddyn

	Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 9	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Cyfanswm
Maint y sampl	26 786	25 808	24 375	22 210	20 209	119 388
Cyfradd ymateb	81%	82%	79%	73%	71%	77%

Noder: Tynnwyd 329 o fyfyrwyr allan gan eu rhieni

Pwysoliad

Ni chymhwyswyd unrhyw bwysoliadau i amcangyfrifon yr arolwg. Mae aelodaeth o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn cynnwys pob ysgol uwchradd a gynhelir yng Nghymru, ac o'r rheiny fe wnaeth 94% o ysgolion gydsynio i gasglu data yn 2019. Roedd demograffeg sampl yr arolwg felly'n cyfateb yn agos i boblogaeth gyfwerth Cymru.

Gweinyddu'r arolwg mewn ysgolion

Cwblhawyd yr arolwg gan fyfyrwyr ar-lein, mewn un eisteddiad ym mhob ysgol, a'r ysgol oedd yn rheoli gwaith gweinyddu'r arolwg, gan ddefnyddio'i hoffer TG ei hun. Anfonwyd pecyn gwybodaeth electronig ynglŷn â'r arolwg ym mis Medi 2019. Roedd hwn yn cynnwys cyfarwyddiadau manwl ar gyfer arweinydd arolwg yr ysgol, briffiau ychwanegol ar gyfer athrawon dosbarth a fyddai'n goruchwyllo'r arolwg, a rheolwr TG yr ysgol a ffurflen ar gyfer

² Mae saith o fyrdau iechyd lleol yng Nghymru, yn cwmpasu poblogaethau o 132,000 – 699,000 o bobl.

cofnodi achosion o rieni'n tynnu myfyrwyr allan. Yn fuan wedyn, anfonwyd dolen electronig at yr arolwg iddynt a oedd yn unigryw i'w hysgol.

Roedd tymor cyfan yr hydref (Medi i Ragfyr) gan ysgolion i lenwi'r arolwg a gofynnwyd iddynt gynnwys eu holl fyfyrwyr ym mlynnyddoedd 7 i 11. Os oedd myfyrwyr ym mlynnyddoedd 12 a 13 gan ysgolion, gellid eu cynnwys nhw hefyd os oedd yr ysgol yn dymuno, a chafodd eu data ei fwydo'n ôl i ysgolion yn yr Adroddiadau Iechyd a Lles Myfyrwyr, ond nid adroddir arnynt yma.

Gofynnwyd i ysgolion drefnu ystafelloedd dosbarth er mwyn sicrhau preifatrwydd i fyfyrwyr. Gofynnwyd i staff goruchwylio aros ym mhen blaen yr ystafell ddosbarth oni bai bod myfyriwr yn gofyn am help.

Pe bai tarfu ar ddosbarth cyfan wrth wneud yr arolwg, e.e. oherwydd larwm tân neu fethiant TG, gofynnwyd i ysgolion beidio â gadael i'r dosbarth aildechrau, ond yn hytrach i gysylltu â'r tîm ymchwil i gael cyngor. Os digwyddodd y tarfu yn gynnar yn y wers ac roedd modd adnabod data'r dosbarth y tarfwyd arno yn y ffeil data, gofynnwyd i ysgolion gynnal yr arolwg eto yn y dosbarth, a thynnwyd yr arolygon anghyflawn gan ddefnyddio proses glanhau data. Os nad felly, gofynnwyd i ysgolion beidio â gadael i'r dosbarth ailadrodd yr arolwg a chadwyd y data a'i lanhau gan ddilyn y protocol cytûn (gweler yr adran nesaf).

Glanhau data

Cafodd data ei lanhau gan contractwr yr arolwg i dynnu achosion lle'r oedd ysgolion wedi cael problemau technegol penodol, i ddiwygio ymatebion anghyson ac i ddatrys achosion lle'r oedd gan ysgolion fwy o ddata na myfyrwyr yn eu hysgol. Cafodd cyfranogwyr a oedd heb fynd ymhellach na chwestiwn penodol, sef oddeutu un rhan o bump o'r ffordd drwy'r holiadur, eu tynnu allan hefyd. Cadwyd yr holl holiaduron eraill a oedd wedi'u llenwi'n rhannol. Tynnwyd cyfanswm o 5,347 o achosion yn ystod y broses glanhau data.

Moeseg, recriwtio a chydsyniad

Rhoddodd Pwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd gymeradwyaeth foesegol ar gyfer yr arolwg.

Rhoddwyd briff cynhwysfawr ynglŷn â'r arolwg i gynrychiolwyr staff ysgolion mewn digwyddiadau'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ym mis Mehefin 2019. Mynychodd staff o 120 o ysgolion un o dri digwyddiad rhanbarthol. Wedyn, cafodd gwybodaeth am yr arolwg a phecynnau cofrestru eu cylchredeg i'r holl ysgolion a oedd yn aelodau o'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ym mis Gorffennaf 2019, a gofynnwyd i ysgolion gofrestru ar gyfer yr arolwg cyn diwedd y tymor.

Ym mis Medi 2019, anfonwyd pecyn ychwanegol at yr holl ysgolion cofrestredig a oedd yn cynnwys cynnwys yr holiadur terfynol a llythyrau i rieni yn eu hysbysu am yr arolwg (copïau caled ac electronig). Cafodd ysgolion gyfarwyddyd i ddefnyddio o leiaf ddau dull o gysylltu â rhieni rhag ofn i un dull fethu. Gallai un dull fod yn neges destun i ddweud wrth rieni y dylent fod wedi derbyn llythyr ynglŷn â'r arolwg drwy'r e-bost neu drwy eu plentyn ac i gysylltu â'r ysgol os nad oeddent wedi gwneud. Gallai rhieni weld yr arolwg trwy gysylltu ag ysgol eu plentyn. Roedd cydsyniad gan rieni i optio allan, h.y. roedd eu plentyn yn cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg oni bai bod rhieni wedi tynnu'r plentyn allan. Roedd ysgolion yn cadw cofnod o ryw a grŵp blwyddyn plant a dynnwyd allan gan eu rhieni.

O ran ysgolion a oedd yn cymryd rhan mewn ymchwil cysylltu data (gweler yr adran 'Dyluniad yr holiadur'), darparwyd fideo gwybodaeth gorfodol iddynt i'w ddangos i fyfyrwyr o leiaf un wythnos cyn iddynt lenwi'r arolwg. Darparwyd fideo i ysgolion nad oeddent yn cymryd rhan mewn ymchwil cysylltu data hefyd, ond gallent ddewis defnyddio sleidiau ynglŷn â'r arolwg (darparwyd y rheiny hefyd) os oedd yn well ganddynt. Cafodd yr holl wybodaeth angenrheidiol ei hailadrodd ar ddechrau'r holiadur, cyn i fyfyrwyr gyrraedd y cwestiwn cyntaf. Roedd y cwestiwn cyntaf yn gofyn am eu cydsyniad i gymryd rhan, ac os oeddent yn gwrthod, roedd yr arolwg yn cau'n awtomatig.

Roedd strwythur 'ateb gorfodol' i brif ran yr holiadur, gan olygu bod rhaid i fyfyrwyr ymateb i'r holl gwestiynau ar y dudalen cyn iddynt allu symud ymlaen i'r dudalen nesaf. Cynhwyswyd opsiwn ymateb ychwanegol, 'Nid wyf eisiau ateb', gyda phob cwestiwn ac eithrio'r cwestiynau cydsyniad a grŵp blwyddyn.

Nid oedd rhan olaf yr holiadur, lle gofynnwyd i fyfyrwyr am wybodaeth adnabyddadwy, yn cynnwys cwestiynau gorfodol a gallai myfyrwyr symud heibio heb gwblhau'r adrannau os nad oeddent eisiau i'w hymatebion i'r arolwg gael eu defnyddio ar gyfer ymchwil hydredol. Dywedwyd yn eglur wrth fyfyrwyr, os oeddent yn gadael y meysydd hyn yn wag, y byddai eu holl ymatebion i'r arolwg yn dal i gael eu defnyddio yn ddienw.

Cyflwyno canfyddiadau

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ar ystod eang o newidynnau a gynhwyswyd yn yr holiadur. Mae'r cwestiynau'n ymwneud â'r newidynnau hyn wedi'u rhestru yn yr Atodiad. Gall newidynnau nad ydynt wedi'u hadrodd yma gael eu cynnwys mewn adroddiadau briffio byr yn y dyfodol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o newidynnau, mae ymatebion i'r eitem yn yr holiadur yn cael eu cyflwyno ac yna caiff dangosydd deuaidd ei ddiffinio. Ar gyfer pob dangosydd, cyflwynir y canlyniadau yn ôl: rhywedd, blwyddyn ysgol, cyfoeth teuluol, ethnigrwydd, bwrdd iechyd lleol, a chonsortia addysg rhanbarthol³. Defnyddiwyd Graddfa Cyfoeth Teuluol (FAS) HBSC i amcangyfrif statws economaidd-gymdeithasol pobl ifanc, yn seiliedig ar set o gwestiynau sy'n mesur amodau materol y cartref lle mae pobl ifanc yn byw^{37, 38}. Mae FAS 1 yn dynodi teuluoedd cyfoeth isel, mae FAS 2 yn dynodi cyfoeth canolig, ac mae FAS 3 yn dynodi teuluoedd cyfoeth uchel (gweler y nodyn ar FAS yn yr Atodiad).

Cyflwynir meintiau sylfaen gyda phob siart. Ceir amrywio eang mewn meintiau sylfaen am fod y cwestiynau ar un, dau, tri neu bedwar o lwybrau'r holiadur. Mae meintiau sylfaen bach ar gyfer rhai grwpiau ethnig yn golygu nad yw canlyniadau yn cael eu cyflwyno yn ôl ethnigrwydd lle mae data'n cael ei adrodd ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 11 yn unig. Mewn achosion lle mae meintiau sylfaen yn disgyn islaw 50 o fyfyrwyr, nid yw amcangyfrifon yn cael eu hadrodd.

Nid yw canlyniadau ar gyfer myfyrwyr a ymatebodd 'Nid wyf eisiau ateb' i'r cwestiwn rhywedd yn cael eu dangos mewn ffigurau sy'n adrodd am ddadansoddiad rhywedd, ond mae ymatebion y myfyrwyr hyn wedi'u cynnwys yn yr holl ffigurau eraill. Dylai darllenwyr sy'n

³ Ceir pedwar consortiwm addysg rhanbarthol a'u diben yw darparu gwasanaethau gwella ysgolion. Gadawodd awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot gonsortia Gorllewin Cymru (ERW) ym Mawrth 2020, ond roeddent yn aelodau pan gasglwyd y data ac felly maent wedi'u cynnwys yn y ffigurau rhanbarthol.

cymharu'r adroddiad hwn gydag adroddiad 2017/18 fod yn ymwybodol o'r newid yn y cwestiwn rhywedd (gweler yr adran 'Dyluniad yr holiadur' a'r Atodiad).

Mae myfyrwyr a ddewisodd yr ymateb 'Nid wyf eisiau ateb' i'r cwestiwn ethnigrwydd wedi'u cynnwys yn y tablau sy'n cyflwyno data yn ôl ethnigrwydd fel y grŵp 'Mae'n well gen i beidio â dweud'. Roedd diffyg ymatebion i'r eitem hon yn debyg i arolwg 2017/18 (3%).

O ystyried maint mawr y sampl, mae'n debygol y bydd gwahaniaethau a welwyd yn arwyddocaol yn ystadegol⁴, ac felly nid oes unrhyw brofion ystadegol wedi'u cynnal ar y canlyniadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn. Lle mae canlyniadau'n cael eu hadrodd ar gyfer grwpiau o lai na 1,000 o ymatebwyr, darperir cyfyngau hyder o 95%, naill ai o fewn tablau canlyniadau neu, ar gyfer siartiau, yn yr Atodiad.

At ddibenion cyflwyniadol, mae graddfa echelin pob ffigur yn amrywiol ac yn gymharol â'r data sy'n cael ei gyflwyno. Dylid cymryd gofal felly wrth ddarllen y ffigurau, i sicrhau nad yw gwahaniaethau bach yn cael eu gor-ddehongli yn sgil graddio. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol hefyd y gall camgymeriadau talgrynnu arwain at anghysonderau bach mewn canrannau a adroddwyd.

⁴ Eithriadau posibl yw cwestiynau a ofynnir mewn llwybrau arolwg unigol a'r rheiny a ofynnir i fyfyrwyr blwyddyn 11 yn unig

3. Iechyd meddwl a lles

Cyflwyniad

Mae iechyd meddwl a lles pobl ifanc yn flaenoriaeth polisi allweddol yng Nghymru⁷. Mae oddeutu hanner yr holl gyflyrau iechyd meddwl yn dod i'r amlwg erbyn 14 oed³⁹, sy'n golygu bod y glasoed yn gyfnod pan fo'r risg yn uwch ar gyfer dioddef deilliannau iechyd meddwl salach. Mae diagnosis o gyflwr iechyd meddwl yn ystod y glasoed yn gysylltiedig hefyd â risg uwch o ddioddef problemau iechyd meddwl mewn oedolaeth⁴⁰. Tra bod iechyd meddwl yn cael ei ystyried yn aml o safbwynt wedi'i ddiffinio gan salwch sy'n mynnu atal, mae lles meddyliol yn fwy cyson ag ymdrechion hybu iechyd ac mae wedi'i ddisgrifio fel 'cyflwr lles lle mae unigolyn yn adnabod ei alluoedd, yn gallu ymdopi gyda straen arferol bywyd, yn gallu gweithio'n gynhyrchiol ac yn gallu gwneud cyfraniad at ei gymuned'⁵. Mae unigrwydd wedi'i gysylltu â deillionau iechyd ac addysgol niweidiol hefyd, gan gynnwys gorbryder ac iselder⁴¹, a chyrhaeddiad academaidd is⁴².

Mae'r adran hon yn cyflwyno data ar iechyd meddwl a lles pobl ifanc yng Nghymru ar sail y mesurau canlynol: **bodddhad â bywyd**, **Graddfa Lles Meddyliol Byr Warwick-Caeredin (SWEMWBS)**, **graddfa unigrwydd 3-eitem UCLA**, **unigrwydd yn ystod y gwyliau haf diwethaf**, a'r **Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ)**.

Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddeillio tri mesur cyfansawdd wedi'u disgrifio isod.

Graddfa Lles Meddyliol Byr Warwick-Caeredin

Mae SWEMWBS yn cynnwys saith eitem sy'n holi ynghylch y profiadau canlynol dros y 2 wythnos ddiwethaf: i) Rwyf wedi bod yn teimlo'n optimistaidd ynglŷn â'r dyfodol, ii) Rwyf wedi teimlo fy mod yn ddefnyddiol, iii) Rwyf wedi teimlo wedi ymlacio, iv) Rwyf wedi bod yn delio'n dda â phroblemau, v) Rwyf wedi bod yn meddwl yn glir, vi) Rwyf wedi bod yn teimlo'n agos at bobl eraill, vii) Rwyf wedi gallu gwneud penderfyniadau fy hun ynglŷn â phethau (opsiynau ymateb: 'dim o gwbl', 'anaml', 'rywfaint o'r amser', 'yn aml', 'drwy'r amser'). Neilltuir sgôr rhifiadol o 0 i 4 i ymatebion i eitemau, gyda sgôr cyffredinol yn deillio ar sail cyfanswm y sgorau unigol hyn. Mae sgôr SWEMWBS cyffredinol uwch yn dynodi lles meddyliol mwy cadarnhaol.

Graddfa unigrwydd 3-eitem UCLA

Mae graddfa unigrwydd 3-eitem UCLA yn gofyn: i) pa mor aml ydych chi'n teimlo nad oes gennych unrhyw un i siarad â nhw?, ii) pa mor aml ydych chi'n teimlo eich bod wedi'ch gadael allan?, iii) pa mor aml ydych chi'n teimlo'n unig? (opsiynau ymateb: 'bron byth neu byth', 'rywfaint o'r amser', 'yn aml'). Neilltuir sgôr rhifiadol o 1 i 3 i ymatebion i eitemau, gyda sgôr cyffredinol yn deillio o wneud cyfanswm o'r sgorau unigol hyn. Mae sgorau ar raddfa unigrwydd UCLA felly yn amrywio rhwng 3 a 9, gyda sgôr uwch yn dynodi unigrwydd mwy aml. Nid oes torbwynt derbyniedig safonol lle byddai person sy'n sgorio uwchlaw/islaw gwerth penodol yn cael ei ystyried yn berson unig.

⁵ <https://www.who.int/news-room/fact-sheets/detail/mental-health-strengthening-our-response>

Holiadur Cryfderau ac Anawsterau

Mae'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau yn offeryn sgrinio ar gyfer mesur problemau a chryfderau seicolegol. Mae'n cynnwys 25 o eitemau y gellir eu rhannu yn bum graddfa benodol: i) problemau emosiynol, ii) problemau ymddygiad, iii) gorfywiogrwydd/diffyg sylw, iv) problemau perthnasoedd gyda chyfoedion, a v) ymddygiad rhag-gymdeithasol. Mae eitemau ym mhob graddfa yn holi ynghylch profiadau dros y 6 mis diwethaf, gyda'r opsiynau ymateb 'ddim yn wir', 'rywfaint yn wir' a 'sicr yn wir'. Neilltuir sgôr rhifiadol i ymatebion i eitemau, a deillir sgôr cyffredinol a sgôr benodol i raddfa ar sail cyfanswm sgorau eitemau unigol. Mae sgôr cyffredinol uwch yn yr Holiadur Cryfderau ac Anawsterau yn dynodi iechyd meddyliol salach. Er mwyn ei gwneud hi'n hawdd dehongli, mae sgorau wedi'u categorio i bedwar dosbarth: 'gerllaw'r cyfartaledd', 'ychydig yn uwch', 'uchel', ac 'uchel iawn'. Mae torbwyntiau'n seiliedig ar sampl gymunedol fawr yn y DU a'u dewis fel bod y dosbarthiadau hyn wedi'u poblogi gan 80%, 10%, 5% a 5% o'r boblogaeth, yn y drefn honno. Mae'r raddfa rag-gymdeithasol, nad yw wedi'i chynnwys yn sgôr cyffredinol yr Holiadur Cryfderau ac Anawsterau, wedi'i chategorio fel a ganlyn: 'gerllaw'r cyfartaledd' (80%), 'ychydig yn is' (10%), 'isel' (10%), ac 'isel iawn' (5%). Gellir gweld rhagor o wybodaeth am yr holiadur a'i gynnwys ar wefan yr Holiadur Cryfderau ac Anawsterau: <https://www.sdqinfo.org/>.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

Bodddhad â bywyd

Pan ofynnwyd iddynt pa mor fodlon oedden nhw gyda'u bywyd ar raddfa o 0 (bywyd gwaethaf posibl) i 10 (bywyd gorau posibl), yr ymateb mwyaf cyffredin a roddwyd gan bobl ifanc oedd 8 (22%), gyda 4 mewn 5 yn sgorio 6 neu'n uwch (Ffigur 3.1). Roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o fod yn fodlon â'u bywyd (ddiffiniwyd fel sgôr o 6 neu'n uwch), gyda'r lefel isaf o foddhad â bywyd yn cael eu hadrodd gan bobl ifanc a nododd nad oeddent yn fachgen nac yn ferch (Ffigur 3.2). Roedd bodddhad â bywyd yn gostwng yn raddol gydag oedran, gydag 87% o fyfyrwyr yn graddio eu bodddhad â bywyd fel 6 neu'n uwch ym mlwyddyn 7, yn gostwng i 75% erbyn blwyddyn 11. Roedd perthynas raddedig rhwng cyfoeth teuluol a bodddhad â bywyd hefyd. Roedd pobl ifanc o deuluoedd llai cyfoethog yn llai tebygol o adrodd eu bod yn fodlon â'u bywydau na phobl ifanc o deuluoedd mwy cyfoethog (Ffigur 3.3). Roedd y gostyngiad mewn bodddhad â bywyd yn gysylltiedig ag oedran yn fwyaf amlwg ar gyfer merched, gyda gwahaniaeth bach yn unig rhwng bechgyn a merched ym mlwyddyn 7 (89% yn erbyn 86%) yn cynyddu yn fwch mwy o lawer erbyn blwyddyn 11 (81% yn erbyn 71%) (Ffigur 3.4).

Lles meddyliol

Roedd sgorau lles meddyliol ar SWEMWBS wedi'u dosbarthu'n arferol fwy neu lai, gyda'r sgôr fwyaf cyffredin yn 25 (Ffigur 3.5), ond gyda sgôr gymedrig o 24. Ar gyfartaledd, adroddodd merched sgôr is ar gyfer lles meddyliol na bechgyn, tra bod sgorau ar eu hisaf ymhlith pobl ifanc a nododd nad oeddent yn fachgen nac yn ferch (Ffigur 3.6). Yn debyg i foddhad â bywyd, roedd lles meddyliol yn dirywio gydag oedran ond yn cynyddu gyda chyfoeth teuluol (Ffigur 3.7). Roedd y dirywiad mewn lles meddyliol yn gysylltiedig ag oedran yn fwy amlwg ar gyfer merched nag ar gyfer bechgyn (Ffigur 3.8).

Unigrwydd

